

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

## Cofnodion Cyfarfod 18/07/2023 7:00yh

John Brinley Jones (Cad) David Andrew Parry Hywel James Sinclair Evans  
Gwenllian Davenport Hughes Ian Goronwy Williams  
Thomas Victor Jones Carys Jones (Clerc)

### 1. Ymddiheuriadau

Alan Harper-Smith  
William Roger Jones  
Greta Hughes

### 2. Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol

Dim buddiant.

### 3. Derbyn Cofnodion Cyfarfod 26 Mehefin 2023

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

#### Cofnodion Cyfarfod Blynyddol

Cynnig: Ian Goronwy Williams  
Eilio: Hywel James Sinclair Evans

#### Cyfarfod Misol

Cynnig: Gwenllian Davenport Hughes  
Eilio: Ian Goronwy Williams

### 4. Unrhyw Fater Brys

#### 1. Seddi Gwag

Cytunwyd i ail-hysbysebu a gadael y dyddiad yn agored tan ddiwedd Awst.  
Bydd angen cofnodi hyn ar wefan Cyngor Gwynedd a Chyngor Cymuned Llanbedrog.

#### 2. Mantolen Banc

Nododd y cadeirydd fod angen ail-wneud y trosglwyddiad i NatWest.  
Llofnodi sieciau:  
Cynigiodd David Andrew Parry fod y clerwr yn arwyddo  
Eilio: Hywel James Sinclair Evans

#### 3. Lôn Pin Solar

Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod â Valentines ddwy waith. Nododd hefyd fod pryderon am y datblygiad. Cytunwyd y byddai angen cael petisiwn gan y rhai sydd yn gwrthwynebu. Dylai'r rhai sydd yn gwrthwynebu ysgrifennu at Christ Bale ac anfon copi o'r llythyr at Gyngor Gwynedd.

Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw y 6ed o Awst 2023.

Cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â beth yn union fyddai cyfanswm y cyfraniad i'r Cyngor Cymuned. Cytunwyd ei bod hi'n anodd gweithio allan yr union swm, i gynnwys chwyddiant.

Fe fydd arddangosfa o'r cynllun yn Llanbedrog ar yr 2il o Awst 2023. Mae adroddiad a manylion am y cynllun hefyd yn MSBARC ac yn y llyfrgell ym Mhwlheli. Mae Alan Harper-Smith eisioes wedi gyrru e-bost yn mynegi gwrthwynebiad i'r cynllun yma ac yn codi pryder am y posibilrwydd o ymestyn y cynllun yn y dyfodol.

#### **4. Audit Allanol**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod yr Audit Allanol bron wedi cael ei gwblhau. Efallai y bydd ambell sic heb fynd drwodd. Bydd angen gyrru ychydig o wybodaeth bellach ymlaen i gwblhau'r Audit.

#### **5. Cynllun Hyfforddiant**

Mae'r Cadeirydd wedi ei gwblhau y Cynllun Hyfforddiant. Derbyn fel gwybodaeth.

#### **6. Y Gali**

Nododd Victor fod arwydd y Cyngor Sir wedi torri a bod hyn yn fater o breeder, rhag iddo anafu unrhyw berson/plentyn sy'n mynd heibio.

#### **5. Llwybrau**

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod nifer o gwynion wedi eu derbyn am gyflwr y llwybrau. Bydd angen cwblhau tender newydd ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nant (ger yr ysgol): Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi e-bostio Llwybrau Gwynedd ond heb dderbyn unrhyw ymateb.

Cadarnhaodd Ian Goronwy William fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn tacluso rhywfaint at y llwybrau yn ddiweddar a bod ysgubwr ffordd (road sweeper) wedi bod yn y pentref yn gynnar iawn. Adroddodd y Cadeirydd fod ardal y fynwent wedi cael ei dorri ac nad yw cyflwr y llwybrau yn rhy ddrwg yn y lleoliad yma. Adroddodd ymhellach fod cofeb Lewis Valentine yn daclus. Ond mae'r llwybr o Grugan i'r "cattle-grid" yn beryglus. Adroddwyd hefyd fod chwyn yn tyfu ger y Neuadd ac angen ei dwtio. Mae potiau blodau blêr ger y garej hefyd – mae angen rhoi blodau yma a chlirio'r hen botiau. Bydd trionglau a'r ddraig goch yn cael eu peintio ar y potiau ac mae arwydd 'croeso' i gael ei arddangos hefyd yn y pentref ar gyfer Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd.

#### **6. Y Fynwent Newydd**

Adroddodd y Cadeirydd fod y goeden wedi cael ei chlirio ond nid yw'r wal wedi cael ei gorffen eto. Nododd hefyd nad yw yw wedi clywed ymhellach gan Glyn o Adran Cynllunio Cyngor Gwynedd. Cytunwyd fod angen ail-feddwl am y fynwent Newydd ac ystyried unrhyw opsiynau eraill. Holodd David Andrew Parry sut mae mynd o gwmpas cael tir addas hefo mynedfa addas yn Llanbedrog? Cytunwyd i feddwl am hyn ac am opsiynau eraill i'w trafod yn y cyfarfod nesaf.

#### **7. Cae Chwarae**

Roedd Alaw wedi cael gwahoddiad i fynychu cyfarfod y Cyngor Cymuned heno, ond yn anffodus, nid oedd yn gallu bod yn bresennol. Adroddodd Hywel James Sinclair Evans ei fod wedi siarad hefo Alaw a bod Alaw wedi ei hysbysu fod tractor wedi cael ei brynu o'r gronfa. Adroddodd ymhellach fod Glyn wedi cytuno i dorri gwellt yn y cae chwarae. Mae Glyn yn gwybod ble mae'r blodau gwyllt yn tyfu er mwyn osgoi eu torri.

Nododd Thomas Victor Jones fod grantiau ar gael gan y Loteri Genedlaethol i Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol. Dywedodd Gwenllian Davenport Hughes nad oedd pobl y pentref yn gwybod beth sy'n mynd ymlaen oherwydd diffyg cyfathrebu. Cytunodd Hywel James Sinclair Evans a Ian Goronwy Williams i fynd ar y pwyllgor i gefnogi'r cae chwarae. Cynigiodd Ian Goronwy Williams fod Hywel James Sinclair Evans yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned a'r bwyllgor y cae chwarae.

Eilio: David Andrew Parry

Pawb yn gytûn.

## 8. Neuadd y Pentref

Adroddwyd fod crac yn y beipen ddŵr ac y bydd angen cael dau gontractwr i asesu'r sefyllfa a phrisio'r gwaith. Cadarnhawyd fod Williams & Williams eisioes wedi gwneud hyn ac felly bydd angen cael un arall. Cytunwyd fod angen rhoi blaenoriaeth i hyn, ond na ellir mynd ymlaen hefo'r gwaith tan ddechrau gwyliau'r haf, pan na fydd yr Ysgol Feithrin yn defnyddio'r adeilad. Cadarnhaodd Hywel James Sinclair Evans ei fod wedi gwneud archwiliad tân a'i fod wedi trwsio drysau tân y Neuadd. Mae e-bost wedi cael ei anfon ar NatWest i gael cyfri annibynnol ar gyfer y Neuadd. Mae tipyn o waith pellach i'w wneud i gwblhau hyn. Cytunodd Ian Goronwy Williams i gadw llygad ar y meter dŵr. Cytunodd y Cadeirydd i gadw llygad ar y meter trydan. Bydd angen hefyd edrych ar yr yswiriant.

## Taliadau wedi eu Derbynnu

Scotish Power (Polyn yn y Cae Chwarae)

£17.85

G.D. Roberts

£145.00

## Taliadau i'w Cymeradwyo

Ann Llwyd (Cyfieithydd)

£140.00

Toiledau Cyhoeddus y Pentref

£2000

## Ceisiadau Cynllunio:

### 1. C23/0506/38/LL Londis, Llanbedrog, Pwllheli

Dim gwrthwynebiad.

Ond fe fynegwyd pryder ynglŷn â pharcio ac am sbwriel.

### 2. C23/0429/38/DT Tanrallt, Llanbedrog

Gwrthwynebiad unfrydol ar sail gor-ddatblygiad.

## Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Cadeirydd yn byddai'n syniad da cael cabinet i gadw gohebiaeth y cyngor yn y Neuadd.

Cytunwyd yn unfrydol.

Cynnig: Thomas Victor Jones

Eilio: Hywel James Sinclair Evans

**Dyddiad y cyfarfod nesaf: 26/09/23**